

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTRYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid er mwyn annog newid o ran trechu tlodi ac anghydraddoldeb a chael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. I gefnogi hyn, yn 2010 gwnaeth y Senedd gyfraith sy'n golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod Strategaeth Tlodi Plant ar waith ar gyfer Cymru sy'n nodi Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfrannu at ddileu tlodi plant. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn parhau i fod yn sail i'n hamcanion o ran tlodi plant, y camau gweithredu rydym yn eu cymryd a'r penderfyniadau a wnawn i'w cyflawni.

Bu'r Strategaeth Tlodi Plant bresennol ar gyfer Cymru ar waith ers 2015. Dros y tair blynedd diwethaf, mae teuluoedd wedi wynebu pwysau ychwanegol oherwydd pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Awgryma [tystiolaeth](#) fod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith arbennig o niweidiol ar deuluoedd incwm isel. Ar yr un pryd, mae cryn bwysau wedi bod ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac rydym wedi gorfod blaenoriaethu'r hyn rydym yn ei wneud a'r ffordd rydym yn gwario arian er mwyn cefnogi anghenion uniongyrchol pobl.

Rydym wedi cadw'r diffiniad o dlodi plant y cytunwyd arno yn 2011. Mae hyn yn adlewyrchu'r ysgogiadau sydd ar gael inni a'n hawydd i gyfrannu, nid yn unig at ddileu tlodi, ond hefyd at ddileu effeithiau tlodi ar blant a phobl ifanc.

“cyflwr hirdymor o beidio â chael digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (fel mynediad i gymdogaethau atyniadol a manau agored) a gymerir yn ganiataol gan eraill yn eu cymdeithas”.

Prif ddangosydd tlodi plant yw canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd islaw 60% o incwm aelwydydd canolrifol y DU (ar ôl costau tai). Mae'r ystadegau yn llwm, ac mae'r [dystiolaeth](#) ddiweddaraf yn awgrymu bod 28% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn ystod y tair blwyddyn ariannol a ddaeth i ben rhwng 2022 a 2022.

Mae [anfantais economaidd-gymdeithasol](#) yn groestoriadol iawn. Mae hyn yn golygu bod cysylltiad rhwng amddifadedd a nodweddion gwarchoddedig, a bod rhai pobl a chymunedau yn wynebu canlyniadau gwaeth o ganlyniad i'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â'u hanfantais economaidd-gymdeithasol. Gellir ystyried y croestoriadedd rhwng amddifadedd a nodweddion eraill fel gwe, lle mae elfennau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd, gan waethgu eu heffaith.

Dengys y [dystiolaeth](#) fod nodweddion penodol aelwydydd, gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig, yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn wynebu tlodi ac anfantais:

- Mae plant sy'n byw mewn aelwyd lle nad oes unrhyw oedolyn yn gweithio yn parhau i wynebu mwy o risg o dlodi incwm cymharol (43%) o gymharu â phlant sy'n byw mewn aelwyd sy'n gweithio (26%).

- roedd 81% o'r plant a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn byw mewn aelwydydd sy'n gweithio.
- Roedd 31% o'r plant a oedd yn byw mewn teulu lle roedd rhywun yn anabl mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â 26% o'r rheini a oedd yn byw mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl.
- Aelwydydd â rhiant unigol oedd y math o deulu a oedd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol (sef 38%). Mae 88% o [rieni unigol](#) â phlant dibynnol yn fenywod.
- Mae [tystiolaeth](#) yn dangos bod 40% o bobl y mae eu penteulu yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu ethnig Ieiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â thebygolrwydd o 22% ar gyfer y rheini y mae eu penteulu yn perthyn i grŵp ethnig Gwyn.
- Mae plant sy'n Roma, Sipsiwn neu Deithwyr yn wynebu lefelau uchel o anfantais, ac awgryma [ymchwil](#) fod bron chwarter y plant a'r bobl ifanc dan 19 oed sy'n Roma, Sipsiwn neu Deithwyr yng Nghymru a Lloegr wedi'u hamddifadu mewn tri dimensiwn neu fwy, o gymharu â dim ond 2 y cant o blant eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall tlodi gael effaith negyddol ar fywydau beunyddiol plant a phobl ifanc a'u llesiant drwy gydol eu bywyd.

Gwyddom fod tlodi yn cael effaith uniongyrchol ar anghydraddoldebau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, y gallu i gael tai o safon weddus, cyfleoedd chwarae, hamdden a chwaraeon a'r cyfle i fwynhau adnoddau naturiol, gweithgareddau diwylliannol a dathlu treftadaeth.

- Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o wynebu canlyniadau iechyd gwaeth ac [anghydraddoldebau iechyd](#), gan gynnwys pwysau geni isel, iechyd corfforol gwael, a phroblemau iechyd meddwl.
- Erys bwlch cyrhaeddiad [addysgol](#) ar lefel TGAU, ac mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o ennill y graddau uchaf na myfyrwyr eraill.
- Mae [tystiolaeth](#) yn nodi'r cysylltiad rhwng tlodi a'r risg y bydd plant yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, gan adlewyrchu'r gydberthynas rhwng cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau, mwy o risg o niwed i blant a mwy o risg o dloidi teuluoedd.
- Mae hyn hefyd yn golygu y bydd plant sy'n dod yn rhan o'r system ofal yn aml wedi wynebu [tlodi](#), y gallant fod yn destun trefniadau [Gofal gan Berthynas](#) lle mae incwm yr aelwyd yn isel ac y gall y [rhai sy'n gadael gofal](#) wynebu caledi ariannol wrth iddynt bontio i fywyd fel oedolyn.
- Pan fydd rhiant neu berson ifanc yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, yn enwedig os caiff ei garcharu, bydd hyn yn cael [effaith](#) uniongyrchol ar gyllid y teulu a chyfleoedd i godi allan o dloidi. Ar yr un pryd, er nad yw'r [gydberthynas](#) rhwng tlodi a throsedd yn un llinol, mae cysylltiad cryf rhwng problemau fel iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau a diffyg diddordeb mewn addysg a'r risg o ddod y rhan o'r system cyfiawnder troseddol, a thlodi.
- Gall cymunedau [gwledig](#) wynebu heriau penodol sy'n gysylltiedig â phellter o wasanaethau allweddol, cyfleoedd cyfyngedig am swyddi ac incymau isel,

costau byw uwch (a elwir weithiau yn 'premiwm gwledig'), argaeledd trafndiaeth gyhoeddus, ynysigrwydd cymdeithasol a stoc dai gyfyngedig.

Lluniwyd yr Aseiad Effaith Integredig hwn ochr yn ochr â datblygu Strategaeth Tlodi Plant newydd a rhannau 1, 8 a'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gafodd eu cynnwys yn yr ymarfer ymgynghori ffurfiol.

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, gan geisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgyssylltiedig.

Mae hawliau plant wedi'u nodi yng nghyfraith Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 0150 gan ategu ymrwymiad Cymru i hawliau plant a CCUHP.

Mae'r mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth briodol i ofynion CCUHP, a'u cydbwysu â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Rydym wedi ystyried tystiolaeth gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Archwilio Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi ac ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol gan y cyhoedd a sefydliadau fel Plant yng Nghymru a Sefydliad Bevan.

Lluniwyd Strategaeth Tlodi Plant Cymru ar y cyd â'r plant, y bobl ifanc, y teuluoedd a'r sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn ein helpu i ddeall beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt.

Ein gweledigaeth i Gymru:

“Gwlad sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau, sicrhau llesiant da a gwireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).”

Diben y Strategaeth Tlodi Plant yw edrych i'r dyfodol a chynllunio ar ei gyfer, a phennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant ac effeithiau gwaethaf tlodi yng Nghymru dros y degawd nesaf neu fwy.

Mae'n edrych y tu hwnt i fesurau incwm safonol ac yn ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, ni waeth beth fo'i amgylchiadau ariannol, yn cael yr un cyfleoedd, yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau, ac yn gallu arfer ei hawliau yn yr un ffordd â'i gyfoedion.

Rydym wedi datblygu pum amcan lefel uchel hirdymor i lywio ein hymdrechion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol a Rhaglenni Llywodraethu'r dyfodol.

Amcan 1: Lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd.

Amcan 2: Creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial.

Amcan 3: Cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a gwneud yn siŵr bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell.

Amcan 4: Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi.

Amcan 5: Sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol yn arwain at gydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol.

Rydym wedi nodi pum blaenoriaeth lle byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i gyflawni yn erbyn y pum amcan:

BLAENORIAETH 1: Hawl – rhoi arian ym mhocedi pobl.

BLAENORIAETH 2: Creu cenedl Gwaith Teg – heb adael neb ar ôl.

BLAENORIAETH 3: Creu Cymunedau – gwasanaethau cydgysylltiedig hygyrch i ddiwallu anghenion y gymuned.

BLAENORIAETH 4: Cynhwysiant – gwasanaethau caredig, tosturiol nad ydynt yn stigmatiddio

BLAENORIAETH 5: Galluogi cydweithio – ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae'r Strategaeth yn esbonio lle byddwn yn targedu ein gwaith o dan y blaenoriaethau hyn er mwyn cyflawni yn erbyn ein hamcanion.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y Strategaeth Tlodi Plant dros gyfnod o 12 wythnos, gan ddod i ben 11 Medi 2023. Cawsom gyfanswm o 155 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi'i hystyried wrth lunio Strategaeth derfynol.

Rydym am weithio gyda'n partneriaid tuag at Gymru:

- Lle gall plant, beth bynnag fo incwm eu teulu, arfer eu hawliau o dan CCUHP, heb wahaniaethu.
- Lle y gall oedolion â phlant a phobl ifanc dibynnol gael gafael ar addysg, hyfforddiant a gwaith teg a manteisio'n llawn ar eu hawliau ariannol pan fo angen, a lle nad ydynt o dan anfantais ariannol o ganlyniad i wahaniaethu neu ddiffyg cymorth i oresgyn amgylchiadau heriol.
- Lle y caiff gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchoddedig ac anfantais o ganlyniad i amgylchiadau personol eu herio er mwyn sicrhau cyfle cyfartal.

## Yr hirdymor

Nid dim ond cynllun i Lywodraeth Cymru weithredu arno ddylai'r Strategaeth ddiwygiedig fod, ond cynllun i Gymru gyfan. Mae hyn yn cydnabod y cyfraniad y mae'n rhaid i bob un ohonom ei wneud i gyflawni'r newid sydd ei angen i blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Bydd yn ein helpu i greu Cymru y mae pob un ohonom am fyw ynnddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae llawer o'r newidiadau a all roi mwy o arian ym mhocedi pobl, fel budd-daliadau lles, trethi a lefelau gwariant cyhoeddus, yn dibynnu ar Lywodraeth y DU. Ond mae llawer o bethau y gall Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ei wneud o hyd i wella bywydau plant a'u teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a lleihau tlodi yn y tymor hwy. Yn enwedig pan fydd pob un ohonom yn cydweithio.

Mae'r trydydd sector (sefydliadau gwirfoddol ac elusennau) yn darparu cymorth hollbwysig i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru ac yn chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Gall y sector preifat (busnesau) hefyd fod yn allweddol i gefnogi llwybrau allan o dlodi drwy weithgarwch uniongyrchol busnesau a thrwy weithio mewn partneriaeth, drwy sefydliadau elusennol, ag elusennau bach a lleol, pobl a chymunedau.

Mae'r Strategaeth yn esbonio'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud a pham rydym yn bwriadu gwneud hynny, ac yn amlinellu ein cynigion o ran sut y byddwn yn gwybod a ydym yn cyflawni'r hyn rydym yn dymuno ei gyflawni.

Er bod yn rhaid inni ddiwallu anghenion uniongyrchol a hanfodol plant, pobl ifanc a theuluoedd ar incwm isel yn ystod yr argyfwng costau byw, mae angen inni hefyd gynllunio ar gyfer newid hirdymor ar gyfer y genhedlaeth hon o blant, a chenedlaethau'r dyfodol.

## Atal

Dylai mynd ati i ymgorffori'r Strategaeth ym mhob sector yng Nghymru sicrhau effaith gadarnhaol o ran gostwng lefelau tlodi yn gyffredinol, a lleihau'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac iechyd gwael sy'n deillio o dlodi.

Mae'r [arolwg](#) diweddar a gynhaliwyd gan sefydliad Plant yng Nghymru yn dangos bod byw mewn tlodi yn cael effaith sylweddol ar iechyd plentyn. Rhestrwyd blinder, llwgu, straen ychwanegol ac iechyd meddwl sy'n dirywio fel y prif broblemau mewn perthynas ag addysg.

Bydd y Strategaeth yn ceisio trin achosion tlodi, o fewn y pwerau sydd ar gael i ni. Fel y casglodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i'r strategaeth ganolbwyntio ar fynd i'r afael â sbardunau strwythurol sylfaenol tlodi. Rhaid inni hefyd sicrhau y caiff gwaith ei wneud i liniaru effaith tlodi ar blant a phobl ifanc,

sicrhau llesiant da a'u galluogi i arfer eu hawliau, ni waeth beth fo amgylchiadau economaidd-gymdeithasol eu teulu.

## **Integreiddio**

Mae ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu gyfredol yn cael eu llunio a'u cyflwyno, ac mae'r angen i drechu tlodi ac anghydraddoldeb yn ffactor ysgogi canolog. Mae neges y bobl a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn tlodi ac yn siarad ar eu rhan yn glir – mae angen inni sicrhau mwy o integreiddio ar draws polisïau, rhaglenni a buddsoddiadau Llywodraeth Cymru. Dywedodd pobl wrthym y bydd atgyfnerthu'r broses o integreiddio gwaith trawslywodraethol ymhellach yn cefnogi cydweithio cryfach ar lefelau rhanbarthol a lleol, gan arwain at gynllunio a chyflawni mwy effeithlon ac effeithiol.

Gwyddom fod angen penderfyniadau cyllidebol symlach a mwy penodol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gwaith trawslywodraethol i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith. Rydym yn cyhoeddi [Cynllun Gwella'r Gyllideb](#) bob blwyddyn. Mae'r Cynllun yn nodi ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau byrdymor a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella'r broses gyllidebu yn Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Deddf 5 a'r pum ffordd o weithio i ysgogi gwelliant parhaus. Rydym wedi sefydlu [Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb](#) roi cyngor, adborth a thystiolaeth o safbwynt cydraddoldeb a chynhwysiant.

Bwriedir i'r Strategaeth hon lywio unrhyw waith datblygu polisi yn y dyfodol drwy roi sylw dyledus o dan Fesur Hawliau Plant 2011 i'r gofyniad statudol i ystyried hawliau plant ym mhopeth a wnawn.

## **Cydweithio**

Cymaint yw cymhlethdod rhywfaint o'r gwaith, fel mynd i'r afael â thlodi plant, nes bod angen i bob un o'r Gweinidogion gydweithio, fel un Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus a'r trydydd sector, er mwyn ei gyflawni.

Er mwyn ysgogi'r newid sydd ei angen a chael effaith diriaethol ar dlodi plant, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn cydweithio i wella bywydau plant a'u teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd tlawd a lleihau tlodi yn y tymor hwy. Mae'r trydydd sector (sefydliadau gwirfoddol ac elusennau) a chymunedau ffydd (sefydliadau a grwpiau crefyddol) yn darparu cymorth hollbwysig i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru ac yn chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Gall y sector preifat (busnesau) hefyd fod yn allweddol i gefnogi llwybrau allan o dlodi drwy weithgarwch uniongyrchol busnesau a thrwy weithio mewn partneriaeth ag elusennau bach a lleol, pobl a chymunedau.

Mae pobl sy'n gweithio mewn cyrrff cyhoeddus a'r trydydd sector a gymerodd ran yn ein gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori wedi dweud wrthym fod angen cydgysylltu a chydweithio cryfach rhwng sefydliadau sy'n gweithio ar lefelau lleol a rhanbarthol i drechu tlodi, gan gynnwys tlodi plant, a bod angen inni ddefnyddio ein pwerau i ddwyn partneriaid ynghyd a chanolbwyntio ar weithredu lle mae'r angen mwyaf.

Ar lefel ranbarthol, mae [Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#), [Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol](#) a [Chyd-bwyllgorau Corfforedig](#) yn dwyn partneriaid lleol a rhanbarthol ynghyd i hybu llesiant drwy gydweithio mewn ffordd fwy effeithiol.

Fel rhan o Raglen Lywodraethu gyfredol Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i fwrw ati gyda'u gwaith hollbwysig a pheidio â chael eu llesteirio gan unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen.

Mae Canolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses gyllido a meincnodi hirach, er mwyn galluogi cyllid tymor hwy/amflwyddyn lle y bo'n briodol.

Daeth y [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn helpu'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle inni wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae'n sicrhau bod trechu anghydraddoldeb wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, a bydd yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes y ei wneud.

## Cyfranogiad

**Roedd Gweinidogion Cymru yn glir o'r dechrau y dylai'r strategaeth gael ei chyd-awduro gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tldi, a chyda'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.**

**Er mwyn i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd allu dweud wrthym beth y mae angen inni ei newid drwy'r strategaeth hon, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i ariannu digwyddiadau ymgysylltu yng nghymunedau pobl. Mae hyn wedi cynnwys gweithgarwch ymgysylltu a gyflwynwyd gan sefydliadau y mae pobl yn gyfarwydd â nhw ac yn ymddiried ynddynt. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a niwrowahanol, pobl LHDTC+ a menywod sy'n cael cymorth oherwydd materion y ddau ryw.**

**Gwnaethom ddarparu cyllid drwy gomisiynau neu grantiau bach er mwyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori. Gwnaethom gomisiynu Plant yng Nghymru, Achub y Plant, Voices from Care, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuentid Cymru (EYST), Race Council Cymru a Women Connect First i ymgymryd â'r gwaith hwn. Gwnaethom hefyd ddyfarnu 15 o grantiau bach i sefydliadau gynnal sesiynau ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd â nodweddion gwarchoddedig. At hynny, rhoddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) grantiau bach i Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol er mwyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu ar ein rhan. Eu gwaith oedd cynnal sesiynau ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd, aelodau cymunedau a sefydliadau gan ddefnyddio 'Fframwaith Trafod' i ofyn i bobl beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tldi.**

**Cymerodd 3,272 o bobl ran yn y gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd ar ein rhan, ac ymgysylltwyd â 1,953 o'r bobl hyn drwy waith wedi'i dargedu at y rheini â nodweddion gwarchoddedig. O blith y cyfanswm, roedd 1,402 yn blant**

**ac yn bobl ifanc. Llywiodd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses hon ein penderfyniadau am yr hyn i'w gynnwys yn y Strategaeth.**

**Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi a sefydliadau sy'n siarad ar eu rhan. Drwy'r digwyddiadau hyn a gweithgarwch ymgysylltu ein partneriaid, clywsom dystiolaeth gan 222 o gynrychiolwyr gwasanaethau a sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau a sefydliadau sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, addysg ac iechyd, ac awdurdodau lleol.**

Rydym wedi dwyn ynghyd y dystiolaeth a gasglwyd drwy ein gwaith cyn ymgynghori ac wedi ei chyhoeddi yn adroddiad 'Yr hyn rydym wedi'i glywed'. Mae [Hawliau plant a phobl ifanc: adroddiad cydymffurfio \(Hydref 2020 - Mawrth 2023\)](#) (gweler Astudiaeth Achos 4) hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein gwaith i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Nododd swyddogion yn yr Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd gynigion mewn perthynas â datblygu'r strategaeth ddiwygiedig mewn cyflwyniad i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Cytunodd y Gweinidog i'r dull gweithredu cyffredinol ddiwedd mis Mai 2023. Cymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru y Strategaeth er mwyn ymgynghori arni ar 5 Mehefin 2023.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y Strategaeth Tlodi Plant dros gyfnod o 12 wythnos, gan ddod i ben 11 Medi 2023. Cawsom gyfanswm o 155 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael. O blith y rheini a atebodd gwestiynau ar b'un a oeddent yn cytuno y dylai'r strategaeth gynnwys Amcanion 1 i 5:

- roedd 92% yn cytuno ag Amcan 1
- roedd 94% yn cytuno ag Amcan 2
- roedd 91% yn cytuno ag Amcan 3
- roedd 89% yn cytuno ag Amcan 4
- roedd 93% yn cytuno ag Amcan 5

O blith y rheini a atebodd gwestiynau ar b'un a oeddent yn cytuno y dylai'r strategaeth gynnwys Blaenoriaethau 1 i 5:

- roedd 87% yn cytuno â Blaenoriaeth 1
- roedd 89% yn cytuno â Blaenoriaeth 2
- roedd 88% yn cytuno â Blaenoriaeth 3
- roedd 86% yn cytuno â Blaenoriaeth 4
- roedd 87% yn cytuno â Blaenoriaeth 5

Ar 20 Tachwedd 2023, cytunodd Cabinet Llywodraeth Cymru y dylid cyhoeddi Strategaeth yn dilyn yr ymgynghoriad.

## **Effaith**

**Mae dadleuon o blaid y Strategaeth yn gwrthbwysu'r rheini yn ei herbyn yn sylweddol am y rhesymau a nodwyd uchod. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys**



## **Comisiynydd Plant Cymru, wedi parhau i alw am i strategaeth 2015 gael ei diweddarau. Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi atgyfnerthu'r cais am strategaeth y gall partneriaid ymrwymo iddi/ymuno â ni i'w gweithredu.**

Mae penderfyniadau am dreth a gwariant cyhoeddus ar lefel Llywodraeth y DU yn cael effaith uniongyrchol ar incymau aelwydydd yng Nghymru a'r gyllideb sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Er y gallwn gymryd camau i helpu rhieni/gofalwyr i fanteisio'n llawn ar eu hawliau drwy system budd-daliadau'r DU a mynd ar drywydd gwaith ar y system budd-daliadau i Gymru, mae polisïau ar waith yn y DU ar hyn o bryd sy'n cael effaith negyddol ar deuluoedd â phlant. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i gymryd camau pellach i ddileu'r cap ar fudd-dalidau a'r terfyn dau blentyn, gwneud newidiadau i'r polisi ar ddiwynnu Credyd Cynhwysol a chynyddu'r Lwfans Tai Lleol a chyllid ar gyfer Taliad Disgresiwn at Gostau Tai.

Mae'r strategaeth yn pennu cyfeiriad camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy ac i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u cefndir. Mae hefyd yn darparu fframwaith i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni er mwyn helpu i ddileu tlodi plant.

Nod y strategaeth yw sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisïau, ein rhaglenni a'n cynlluniau gweithredu cenedlaethol a chefnogi cydweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd hyn yn cyflawni ein huchelgais i sicrhau profiad a chanlyniadau tecach i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Fodd bynnag, ni ellir ystyried y strategaeth ar ei phen ei hun ac nid yw'n ddogfen annibynnol. Mae'r uchelgeisiau a nodir yn y Strategaeth yn ystyried nifer o ddyletswyddau deddfwriaethol pwysig a osodir ar Weinidogion Cymru, a byddant yn llywio ein polisïau, ein cynlluniau a'n rhaglenni ym mhob rhan o'r llywodraeth, nawr ac am flynyddoedd i ddod.

### **Costau ac Arbedion**

**Fel strategaeth drawsbynciol, mae llawer o raglenni a champau gweithredu sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at ein gweithgarwch i atal tlodi a chefnogi'r rheini sy'n byw mewn tlodi.** Yn ystod 2022-23 a 2023-24, rydym wedi dyrannu gwerth mwy na £3.3 biliwn o gymorth drwy raglenni sy'n helpu i ddiogelu aelwydydd difreintiedig a rhoi arian yn ôl ym mhocedi teuluoedd.

Cytunwyd ar lefel y Cabinet y dylai'r ymrwymiad i drechu tlodi ac anghydraddoldeb fod wrth wraidd popeth a wnawn ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

**Mae'n debygol y bydd cyllideb fach ar gael ar gyfer blwyddyn 2024-25 er mwyn cefnogi rhywfaint o weithgarwch i roi'r strategaeth ar waith am gyfnod penodol.**

**Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd ar y cam cyd-awduro i dargedu'r arian hwnnw yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.**



## ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?**

Roedd Gweinidogion Cymru yn glir o'r dechrau y dylai'r strategaeth gael ei chyd-awduro gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tldi, a chyda'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

Er mwyn i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd allu dweud wrthym beth y mae angen inni ei newid drwy'r strategaeth hon, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i ariannu digwyddiadau ymgysylltu yng nghymunedau pobl. Mae hyn wedi cynnwys gweithgarwch ymgysylltu a gyflwynwyd gan sefydliadau y mae pobl yn gyfarwydd â nhw ac yn ymddiried ynddynt. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a niwrowahanol, pobl LHDTTC+ a menywod sy'n cael cymorth oherwydd materion y ddau ryw.

Gwnaethom ddarparu cyllid drwy gomisiynau neu grantiau bach er mwyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori. Gwnaethom gomisiynu Plant yng Nghymru, Achub y Plant, Voices from Care, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (EYST), Race Council Cymru a Women Connect First i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Gwnaethom hefyd ddyfarnu 15 o grantiau bach i sefydliadau gynnal sesiynau ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd â nodweddion gwarchoddedig. At hynny, rhoddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) grantiau bach i Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol ledled Cymru er mwyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu ar ein rhan.

Eu gwaith oedd cynnal sesiynau ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd, aelodau cymunedau a sefydliadau gan ddefnyddio 'Fframwaith Trafod' i ofyn i bobl beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tldi.

Cymerodd 3,272 o bobl ran yn y gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd ar ein rhan, ac ymgysylltwyd â 1,953 o'r bobl hyn drwy waith wedi'i dargedu at y rheini â nodweddion gwarchoddedig. O blith y cyfanswm, roedd 1,402 yn blant ac yn bobl ifanc, 1,329 yn rhieni/gofalwyr, a 319 yn neiniau a theidiau/hen neiniau a theidiau.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dldi a sefydliadau sy'n siarad ar eu rhan. Drwy'r digwyddiadau hyn a gweithgarwch ymgysylltu ein partneriaid, clywsom dystiolaeth gan 222 o gynrychiolwyr gwasanaethau a sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau a sefydliadau sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, addysg ac iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

Rydym wedi dwyn ynghyd y dystiolaeth a gasglwyd drwy ein gwaith cyn ymgynghori ac wedi ei chyhoeddi yn adroddiad 'Yr hyn rydym wedi'i glywed'. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd drwy'r gweithgarwch ymgysylltu gyda phobl sydd â phrofiad bywyd wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein penderfyniadau am amcanion a blaenoriaethau'r Strategaeth.

## **8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

### Effeithiau cadarnhaol

Mae'r strategaeth yn pennu cyfeiriad camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy ac i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u cefndir. Mae hefyd yn darparu fframwaith i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni er mwyn helpu i ddileu tlodi plant.

Nod y strategaeth yw sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisiau, ein rhaglenni a'n cynlluniau gweithredu cenedlaethol a chefnogi cydweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd hyn yn cyflawni ein huchelgais i sicrhau profiad a chanlyniadau tecach i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Ein gweledigaeth i Gymru: "Gwlad sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau, sicrhau llesiant da a gwireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)."

Bwriedir i'r strategaeth fod o fudd i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Gwyddom y gall tlodi gael effaith negyddol ar gyfleoedd plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a bod tyfu i fynnu mewn tlodi yn gysylltiedig â chanlyniadau addysg, iechyd a chymdeithasol is.

Gwyddom hefyd fod cysylltiad rhwng anfantais gymdeithasol a nodweddion gwarchoddedig, a bod rhai pobl a chymunedau yn wynebu canlyniadau gwaeth o ganlyniad i'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â'u hanfantais economaidd-gymdeithasol. Dyna'r rheswm pam y mae ein gwaith gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â thlodi plant hefyd yn ystyried materion cydraddoldeb. Efallai na fydd hyn yn golygu gwneud pethau gwahanol, ond gall olygu gwneud pethau mewn ffordd wahanol er mwyn ymateb i amgylchiadau'r rheini sy'n wynebu gwahaniaethu ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny mewn teuluoedd ac yn ddibynnol ar oedolion, felly bydd gwaith i gefnogi oedolion incwm isel o fudd i blant a phobl ifanc. Y genhedlaeth hon o blant a phobl ifanc yw rhieni'r genhedlaeth nesaf. Bydd gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn eu helpu i fod yn fwy sefydlog yn ariannol pan fyddant yn oedolion, ac yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag byw mewn tlodi.

Diben y Strategaeth Tlodi Plant yw edrych i'r dyfodol a chynllunio ar ei gyfer, a phennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant ac effeithiau gwaethaf tlodi yng Nghymru dros y degawd nesaf neu fwy. Cymaint yw cymhlethdod rhywfaint o'r gwaith, fel mynd i'r afael â thlodi plant, nes bod angen i bob un o'r Gweinidogion

gydweithio, fel un Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus a'r trydydd sector, er mwyn ei gyflawni.

### Effeithiau negyddol

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o'r Strategaeth ddiwygiedig.

**Nod y Strategaeth a'i bwriad sylfaenol yw helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd yn uniongyrchol i fyw bywydau hapus ac iach sy'n sefydlog yn ariannol.**

**Fodd bynnag, bydd gwaith o dan Amcan 5 y strategaeth i gryfhau'r integreiddio a galluogi cydweithio yn allweddol i gyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus gyda'n partneriaid, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi ar hyn o bryd, ac atal cenedlaethau'r dyfodol rhag byw mewn tlodi.**

### **8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;**

Rydym wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y Strategaeth hon. Mae'r egwyddorion hyn yn ganolog i'n gwaith o gyflawni ein hagenda gwrthdlodi ar gyfer gweithredu, y mae anghenion ein cymunedau a'r rheini sydd â phrofiad bywyd o dlodi yn rhan greiddiol ohoni, ar y cyd â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ledled Cymru. Bydd cyflawni'r saith nod llesiant, yn ei dro, yn helpu i wireddu ein huchelgeisiau o ran trechu tlodi plant.

### **8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru [Fesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010](#), gosododd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu amcanion tlodi plant ac i adrodd bob tair blynedd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Lluniwyd y strategaeth hon ar y cyd â'r plant, y bobl ifanc, y teuluoedd a'r sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn ein helpu i ddeall beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt. Rydym yn ymrwymedig i gynnal y ffordd hon o weithio wrth inni gyflwyno'r strategaeth ddrafft.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio penderfyniadau gwell yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn cydbwyso anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r [cerrig milltir cenedlaethol](#) yn mesur ein proses ar y cyd fel cenedl a bydd y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol hyn yn ein helpu i greu Cymru fwy cynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio [Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru](#) i fonitro ac adrodd ar effaith y strategaeth hon yn y dyfodol. Bydd Adroddiad Cynnydd nesaf y Strategaeth Tlodi Plant ar gael ym mis Rhagfyr 2025.